Cyllid & Tollau EF

# Nodiadau: Gweinidogion yr efengyl

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 (2025–26)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Gweinidogion yr efengyl eich Ffurflen Dreth

Llenwch y tudalennau 'Gweinidogion yr efengyl' os oeddech:
- yn weinidog yr efengyl mewn unrhyw ffydd, crefydd neu enwad
- yn gyflogai a oedd yn gweithredu fel gweinidog yr efengyl

Mae'n rhaid i ni gael eich Ffurflen Dreth bapur erbyn 31 Hydref 2026 er mwyn i chi osgoi cosb am gyflwyno'n hwyr. Os byddai'n well gennych gyflwyno ar-lein, bydd angen i chi brynu meddalwedd fasnachol.

> I gael rhagor o wybodaeth am feddalwedd fasnachol, ewch i www.gov.uk/software-tax-returns

Bydd yn rhaid i chi lenwi tudalennau 'Gweinidogion yr efengyl' neu 'Cyflogaeth' ar wahân ar gyfer pob swydd oedd gennych yn ystod y flwyddyn.

Mae cyfeiriadau yn y nodiadau hyn at:
- 'eglwys' yn cynnwys pob adeilad crefyddol
- 'ficerdy' yn cynnwys unrhyw lety yr ydych yn byw a gweithio ynddo

### Incwm fel gweinidog yr efengyl

Ceir gwybodaeth ynglŷn â'r hyn rydych wedi ei ennill a'r dreth a dalwyd gennych o'ch:
- P45, 'Manylion cyflogai sy'n gadael gwaith'
- P60, 'Tystysgrif Diwedd Blwyddyn'

Rhaid i unrhyw gyflogwr rydych yn gweithio iddo ar 5 Ebrill 2026 roi P60 i chi erbyn 31 Mai 2026.

Os cawsoch unrhyw fuddiannau neu dreuliau heb eu heithrio o'ch swydd, bydd yn rhaid i chi eu cynnwys ar eich tudalennau 'Gweinidogion yr efengyl'. Bydd eich eglwys yn rhoi manylion i chi ar y ffurflen P11D 'Treuliau a buddiannau'. Os nad ydych yn cael copi o'ch P11D erbyn 6 Gorffennaf 2026, cysylltwch â'ch eglwys.

> I gael rhagor o wybodaeth am fuddiannau o'ch cyflogaeth, ewch i www.gov.uk/tax-company-benefits

#### Blwch 2 Cyflog neu dâl – cyn didynnu treth

Defnyddiwch y ffigurau o'ch P60 neu P45 i lenwi blwch 2.

Os gadawsoch gyflogaeth yn ystod y flwyddyn, rhowch y ffigur sydd yn yr adran 'Cyfanswm y cyflog yn y gyflogaeth hon' ar eich P45 ym mlwch 2. Os oes gennych P60, rhowch y ffigur sydd yn yr adran 'Yn y gyflogaeth hon' ym mlwch 2.

Os oedd gennych fwy nag un swydd yn y flwyddyn, gallai eich P60 gynnwys manylion cyflog a threth cyflogaeth gynharach. Rhowch y manylion hynny ar dudalennau 'Gweinidogion yr efengyl' neu 'Cyflogaeth' ar wahân.

#### Blwch 2.1 Buddiannau a delir drwy'r gyflogres sydd wedi'u cynnwys ym mlwch 2 ac sy'n effeithio ar eich ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr

Wrth gyfrifo ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr, ni ddylid cynnwys buddiannau a delir drwy'r gyflogres sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A.

Os ydych wrthi'n ad-dalu Benthyciad Myfyriwr neu Fenthyciad Ôl-raddedig a bod eich cyflogwr wedi talu'ch buddiannau drwy'r gyflogres (mae hyn yn golygu bod y dreth wedi'i didynnu oddi wrth eich cyflog ac wedi'i chynnwys yn eich P60 neu'ch P45), rhowch swm y buddiannau a delir drwy'r gyflogres sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A yn unig yn y blwch hwn.

Bydd eich cyflogwr yn gallu rhoi gwybod i chi faint yw'r swm hwn, os nad ydych yn siŵr.

Dyma fuddiannau'r cyflogwr sy'n cael eu cyfrif fel buddiannau a delir drwy'r gyflogres ac sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A:
- ceir a faniau cwmni
- tanwydd ar gyfer ceir a faniau cwmni
- yswiriant meddygol a deintyddol preifat
- nwyddau ac asedion eraill a ddarparwyd gan eich cyflogwr

> I gael rhagor o wybodaeth am Fenthyciadau Myfyriwr a buddiannau drwy'r gyflogres, ewch i www.gov.uk/guidance/tell-hmrc-about-a-student-loan-in-your-tax-return.cy

#### Blwch 3 Treth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 2

Nodwch swm y dreth a dalwyd gennych ar eich incwm o'r swydd hon ym mlwch 3. Os oes 'R' wrth ymyl y ffigur ar gyfer treth a ddidynnwyd ar eich P60, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

#### Blwch 4 Ffioedd ac offrymau

Dylech gynnwys yr holl ffioedd, offrymau neu gasgliadau a gawsoch nad ydynt ar eich P60.

### Blwch 5  Treuliau'r ficerdy a dalwyd ar eich rhan

Os talodd yr eglwys unrhyw filiau rydych yn gyfrifol amdanynt, megis gwresogi, goleuo, cynnal a chadw neu arddio, rhowch y ffigur o adran B ar eich P11D ym mlwch 5. Peidiwch â chynnwys:

- unrhyw filiau y gwnaethoch eu talu os cawsoch eich ad-dalu gan yr eglwys – mae'r rhain yn mynd ym mlwch 17
- treth gyngor neu daliadau am ddŵr os yw corfforaeth eglwys neu elusen yn rhoi llety i chi fyw ynddo

### Blwch 6  Treuliau personol a dalwyd ar eich rhan, llety, talebau a chardiau credyd

Adiwch at ei gilydd y treuliau a dalwyd ar eich rhan gan yr eglwys a rhowch y cyfanswm ym mlwch 6. Gall hyn gynnwys:

- treuliau personol, megis atgyweiriadau ceir
- talebau a chardiau credyd, a ddangosir yn adran C ar eich P11D
- llety, a ddangosir yn adran D eich P11D

Mae'r talebau yr ydych yn talu treth arnynt yn cynnwys:

- talebau anrhegion
- talebau neu stampiau ar gyfer arian
- tocynnau tymor
- talebau gofal plant dros y swm wythnosol priodol – rydych yn talu treth ar yr hyn sydd dros ben

Mae cardiau credyd yn cynnwys:

- cardiau a roddwyd gan gwmnïau cardiau credyd
- cardiau tâl
- cardiau cyfrif manwerthwyr
- tocynnau a ddefnyddir er mwyn cael nwyddau o beiriannau

Mae llety a roddir i chi gan eglwys fel arfer yn rhydd o dreth os ydych yn gweithio o gartref ac mae eich swydd yn un fugeiliol. Ni fydd hyn ar eich P11D ac ni ddylech ei gynnwys ym mlwch 6. Gofynnwch i'ch eglwys am gymorth os oes ei angen arnoch.

Gallwch hawlio am unrhyw eitem a brynoch at ddefnydd gweinidogaeth ym mlychau 21 i 25.

> I gael rhagor o wybodaeth am lety, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS202'.
>
> I gael rhagor o wybodaeth am dalebau a chardiau credyd, ewch i www.gov.uk/expenses-and-benefits-vouchers a www.gov.uk/expenses-benefits-credit-debit-charge-cards.

### Blwch 7  Lwfans milltiroedd gormodol a thaliadau am gludo teithwyr

Os talodd yr eglwys lwfans milltiroedd neu daliad teithiwr i chi sydd dros y gyfradd gymeradwy, rhowch y ffigur o adran E eich P11D ym mlwch 7. Peidiwch â chynnwys y swm hwn ym mlwch 21.

### Blychau 8 a 9  Lwfansau treuliau swm crwn a rhent

Ym mlwch 8 rhowch gyfanswm unrhyw:

- lwfans a dalwyd i chi i'ch helpu i dalu'r rhent neu'r morgais
- lwfans swm crwn (blaendal ar gyfer treuliau yr ewch iddynt wrth wneud eich swydd) nad ydynt ar eich P60

Mae'r ffigurau hyn yn adran N eich P11D. Rhowch swm y dreth a daloch ar y rhain ym mlwch 9.

### Blychau  10 ac 11  Incwm arall o'ch swydd neu'ch penodiad

Adiwch at ei gilydd unrhyw incwm arall a gewch o'r swydd hon a rhowch y cyfanswm ym mlwch 10. Dylech gynnwys:

- caplaniaethau sy'n gysylltiedig â'r penodiad hwn
- rhoddion a grantiau
- taliadau mewn nwyddau – hynny yw, nwyddau neu wasanaethau eraill y cawsoch yn lle taliad am y gwaith a wnaethoch – gweler isod

Peidiwch â chynnwys:

- rhoddion personol neu roddion a grantiau ar ffurf cyfandaliadau i'ch amgylchiadau eich hun
- caplaniaethau sydd ar wahân i'ch prif benodiad – mae'r rhain yn mynd ym mlwch 36

Os yw cyfanswm eich enillion (gan gynnwys yr holl fuddiannau a gwerth mewn arian parod y taliadau mewn nwyddau) yn llai na'r gyfradd o £8,500 y flwyddyn, gwerth y taliad mewn nwyddau yw ei werth ail-law petaech yn ei werthu. Rhowch y ffigur hwn ym mlwch 10.
Os yw cyfanswm eich enillion ar gyfradd o £8,500 neu fwy y flwyddyn, defnyddiwch Daflen Gymorth 213, 'Payments in kind and asset transfers', i gyfrifo'r swm i'w roi ym mlwch 10.

Os, mewn blynyddoedd cynharach, gwnaethoch hawlio lwfansau cyfalaf, ac rydych yn eu gwerthu neu nid ydych bellach yn defnyddio'r eitemau hyn ar gyfer gwaith, mae'n bosib bydd cost mantoli yn berthnasol.

Rhowch swm y dreth a dalwyd ar eich incwm arall ym mlwch 11.

> I gael cymorth wrth gyfrifo eich taliad mewn nwyddau, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS213'.
>
> I gael cymorth wrth gyfrifo lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

## Buddiannau a thaliadau am dreuliau a gewch fel gweinidog yr efengyl

Os yw eich cyflogwr wedi talu'ch buddiannau a threuliau 'drwy'r gyflogres' (mae hyn yn golygu bod treth wedi'i didynnu o'ch cyflog a'i chynnwys yn eich P60) peidiwch â'u cynnwys ym mlychau 13 i 19.

Fel arall, bydd eich cyflogwr yn rhoi manylion o'ch buddiannau a threuliau i chi ar ffurflen P11D, 'Treuliau a buddiannau'. Rhowch y manylion o'ch P11D ym mlychau 13 i 19. Ni fydd eich P11D yn dangos unrhyw fuddiannau sy'n rhydd o dreth.

### Blwch 13 Buddiannau gwasanaethau a gafwyd ar gyfer y ficerdy

Os oedd yr eglwys yn cael ac yn talu biliau am gynnal a chadw'r ficerdy, rhowch y cyfanswm ym mlwch 13. Gall hyn gynnwys:


- gwresogi, goleuo a glanhau a chostau atgyweirio, cynnal a chadw ac addurno'r ficerdy
- dodrefn a charpedi a ddarperir – cyfrifwch 20% o'u gwerth ar y farchnad agored o'r dyddiad y cawsant eu rhoi i chi i'w defnyddio
- gwasanaethau domestig (heblaw am lanhau)

### Blwch 14 Car a ddarparwyd ar eich cyfer

Os rhoddodd yr eglwys gar neu fan i chi wneud eich swydd, adiwch at ei gilydd y symiau ym mlwch 9 adrannau F ac G eich P11D a rhowch y cyfanswm ym mlwch 14.

Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau ar gyfer:

- defnyddio car eich hun ar gyfer gwaith – mae hwn yn mynd ym mlwch 21
- car a roddwyd i chi fel taliad mewn nwyddau – mae hwn yn mynd ym mlwch 10



| | | |
|---|---|---|
| Ticiwch os adferwyd yn ystod y flwyddyn (gweler 'Canllaw P11D') | | |
| Gwerth mewn arian parod neu swm perthnasol ar gyfer pob car mewn arian parod | £ 20,665 | £ |
| **Cyfanswm gwerth mewn arian parod neu swm perthnasol ar gyfer pob car a oedd ar gael yn 2021 i 2022** | 9 | £ 20,665 1A |
| Gwerth mewn arian parod neu swm a aberthwyd parthed tanwydd ar gyfer pob car | £ | £ |

Enghraifft o flwch 9 ar dudalen 1 P11D

### Blwch 15 Tanwydd ar gyfer car a ddarparwyd ar eich cyfer

Adiwch y symiau ym mlwch 10 adrannau F ac G eich P11D a rhowch y cyfanswm ym mlwch 15.

### Blwch 16 Benthyciadau di-log a llog isel

Defnyddiwch y ffigurau yn adran H eich P11D.

### Blwch 17 Taliadau a gafwyd am dreuliau

Os talwyd neu ad-dalwyd unrhyw filiau neu atgyweiriadau i'r ficerdy i chi gan yr eglwys, rhowch y cyfanswm a gawsoch ym mlwch 17. Peidiwch â chynnwys:

- unrhyw filiau yr ydych yn gyfrifol amdanynt y gwnaeth yr eglwys eu talu – mae hwn yn mynd ym mlwch 5
- unrhyw symiau rydych wedi'u rhoi ym mlychau 6 neu 8
- unrhyw ad-daliadau am gar a roddwyd i chi er mwyn i chi wneud eich swydd
- unrhyw swm sydd wedi ei gwmpasu gan yr eithriad ar gyfer treuliau wedi'u talu neu eu had-dalu

### Blwch 18 Buddiannau eraill

Adiwch at ei gilydd unrhyw symiau ar eich P11D nad ydych wedi eu nodi ar eich tudalennau 'Gweinidogion yr efengyl' a rhowch y cyfanswm ym mlwch 18.

Os ydych yn symud tŷ ar gyfer gwaith, mae'n bosib y gallech gael £8,000 yn rhydd o dreth tuag at y costau symud. Bydd eich eglwys yn dweud wrthych am unrhyw swm sydd i'w gynnwys ym mlwch 18.

## Incwm trethadwy ac ati cyn talu treuliau

### Blwch 20 Incwm, buddiannau a threuliau trethadwy a gafwyd

Adiwch flychau 12 ac 19 at ei gilydd. Os yw'r cyfanswm:

- ar gyfradd o £8,500 neu fwy y flwyddyn, rhowch y cyfanswm ym mlwch 20
- ar gyfradd o lai na £8,500 y flwyddyn, cyfrifwch flwch 12 llai blwch 5 a rhowch y ffigur hwn ym mlwch 20

## Treuliau a dalwyd gennych fel gweinidog yr efengyl

Gallwch ond hawlio am y costau y bu'n rhaid i chi eu talu er mwyn gwneud eich swydd. Ond os yw cyfanswm eich incwm (hynny yw, eich cyflogau plws eich holl fuddiannau a thaliadau treuliau a gewch) ar gyfradd o lai na £8,500 y flwyddyn, ni chaiff y buddiannau a'r treuliau a gawsoch eu trethu ac ni allwch hawlio unrhyw gostau a daloch o'r taliadau hyn. Peidiwch â hawlio eitemau sydd wedi eu cwmpasu gan yr eithriad ar gyfer treuliau wedi'u talu neu eu had-dalu.

### Blwch 21 Treuliau teithio a lwfansau cyfalaf

Gallwch ond hawlio am y costau y bu'n rhaid i chi eu talu er mwyn gwneud eich swydd, er enghraifft:

- costau teithio, gan gynnwys prydau bwyd a llety – peidiwch â hawlio cost eich teithio dyddiol i ac o'r gwaith
- costau defnyddio eich car eich hunan ar gyfer gwaith
- treuliau busnes, megis galwadau ffôn swyddogol

Os ydych yn defnyddio car eich hunan ar gyfer gwaith, gall yr eglwys dalu Lwfans Milltiroedd i chi. Os oedd y swm a gawsoch:

- ar y gyfradd milltiroedd gymeradwy, ni allwch hawlio mwy
- yn fwy na'r gyfradd milltiroedd, rhowch y ffigur a ddangosir yn adran E eich P11D ym mlwch 7
- yn llai na'r gyfradd milltiroedd, gallwch hawlio'r diffyg ym mlwch 21

Cadwch gofnodion o'ch milltiroedd busnes a defnyddiwch y tabl hwn i gyfrifo swm eich hawliad.

**Cyfraddau milltiroedd cymeradwy ar gyfer y flwyddyn dreth 2025 i 2026**

| | |
|---|---|
| **Ceir a faniau** | Y 10,000 milltir busnes cyntaf - 45c y filltir.<br>Milltiroedd busnes dros 10,000 - 25c y filltir. |
| **Beiciau modur** | 24c y filltir. |
| **Beiciau** | 20c y filltir. |

Mae'n bosib y gallwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer cost eitemau hanfodol, megis cyfarpar swyddfa neu lyfrau diwinyddiaeth, ond nid ceir.

I gael rhagor o wybodaeth am lwfansau cyfalaf, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

### Blwch 22 Cynnal a chadw, atgyweiriadau ac yswiriant y ficerdy ac ati

Os ydych yn weinidog amser llawn, ac mae corfforaeth eglwys neu elusen yn rhoi cartref i chi ac rydych yn gweithio o gartref, gallwch hawlio 25% o'r gost i'w gynnal a chadw, ei atgyweirio neu ei yswirio.

### Blwch 23 Rhent

Os ydych chi (nid yr eglwys) yn rhentu tŷ a defnyddir rhan ohono yn bennaf ar gyfer eich gwaith, gallwch hawlio swm priodol fel traul busnes. Er enghraifft, os oes 10 ystafell gennych, ac rydych yn defnyddio un yn bennaf ar gyfer eich gwaith, gallwch hawlio 10% o'ch rhent. Ni allwch hawlio mwy na 25% o'ch rhent.

### Blwch 24 Cymorth ysgrifenyddol

Gallwch hawlio'r gost o dalu rhywun i'ch helpu chi gyda'ch gwaith papur. Ni allwch, fodd bynnag, hawlio taliadau i'ch priod am waith fel aelod gweithgar o'r eglwys.

### Blwch 25 Treuliau eraill

Adiwch at ei gilydd gostau eich treuliau eraill a rhowch y cyfanswm ym mlwch 25. Gallai hyn gynnwys:

- llyfrau ar gyfer gwasanaeth dwyfol neu baratoi pregeth
- deunyddiau ysgrifennu a phostio, a galwadau ffôn yn y gwaith
- atgyweirio neu amnewid gwisgoedd sy'n cael eu gwisgo ac eitemau sy'n cael eu bwyta neu eu hyfed mewn gwasanaethau dwyfol (megis bara a gwin cymun)
- canran o'ch biliau, os ydych yn gweithio o gartref – peidiwch â chynnwys unrhyw beth a rowch ym mlwch 22
- taliadau i rywun sy'n cyflawni dyletswyddau eich swydd dros dro

## Cyfrifiad o'r terfyn ar fuddiant gwasanaethau

Os yw'r eglwys yn rhoi llety rhydd o dreth i chi ac roedd eich incwm, buddiannau a threuliau ar gyfradd o fwy na £8,500 ar gyfer y flwyddyn, caiff eich buddiannau eu capio ar yr isaf o:

- cyfanswm y buddiannau a gawsoch ar gyfer y llety
- 10% o'ch incwm net

### Blwch 28 Ôl-daliad cyflog ar gyfer 2025 i 2026, a gafwyd ar ôl 5 Ebrill 2026

Os gwnaethoch weithio rhwng 6 Ebrill 2025 a 5 Ebrill 2026 ond ni chawsoch eich talu tan ar ôl 5 Ebrill 2026, rhowch y cyflog hwn ym mlwch 28. Nid yw'r blwch hwn fel arfer yn berthnasol i glerigwyr yr Eglwys yn Lloegr sy'n cael eu talu gan Gomisiynwyr yr Eglwys.

### Blwch 29 Ôl-daliad cyflog ar gyfer blynyddoedd cynharach, a gafwyd yn ystod 2025 i 2026

Os yw cyfanswm eich incwm ym mlwch 12 yn cynnwys unrhyw gyflog ar gyfer gwaith a wnaethoch cyn 6 Ebrill 2024, rhowch y swm hwn ym mlwch 29. Nid yw'r blwch hwn fel arfer yn berthnasol i glerigwyr yr Eglwys yn Lloegr sy'n cael eu talu gan Gomisiynwyr yr Eglwys.

### Blwch 30 Taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig neu gynlluniau pensiwn tramor cymwys

Ym mlwch 30 rhowch y cyfanswm a daloch i mewn i gynllun pensiwn, gan gynnwys:

- cynllun pensiwn personol
- cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhydd
- cynllun pensiwn tramor

Bydd talwr eich pensiwn yn rhoi tystysgrif i chi sy'n dangos eich taliadau. Mae'n rhaid i chi hefyd hawlio unrhyw ryddhad treth ychwanegol ym mlychau 1 i 4 ar dudalen TR 4 eich Ffurflen Dreth.

Peidiwch â chynnwys taliadau i gynllun pensiwn eich cyflogwr os didynnwyd y taliadau hyn o'ch cyflog cyn treth.

I gael rhagor o wybodaeth am derfynau ar ryddhad treth, ewch i www.gov.uk/treth-ar-eich-pensiwn-preifat

### Blwch 31 Incwm net

Adiwch flychau 27 a 28 at ei gilydd. Didynnwch y swm ym mlychau 26, 29 a 30. Rhowch y cyfanswm ym mlwch 31.

**Blwch 32  10% o'r incwm net ym mlwch 31**

Cyfrifwch 10% o'r incwm net ym mlwch 31 a rhowch y ffigur hwn ym mlwch 32.

Os oedd gennych y llety am ran o'r flwyddyn dreth, mae'n rhaid i chi gyfrifo nifer y dyddiadau y gwnaethoch fyw yno cyn defnyddio'r cap o 10% ar eich incwm.

**Enghraifft**

Dechreuodd y Parchedig Anne Lock ei swydd newydd ar 6 Ebrill 2025. Symudodd i mewn i'r ficerdy ar 1 Gorffennaf 2025. Incwm net y Parchedig Anne ar gyfer y flwyddyn yw £12,000 (blwch 31) ond mae'n rhaid iddi gyfrifo ei hincwm net ar gyfer 1 Gorffennaf 2025 i 5 Ebrill 2026 cyn iddi allu defnyddio'r cap o 10%.

- 1 Gorffennaf 2025 i 5 Ebrill 2026 (279 diwrnod)
- 279/365 x £12,000 = £9,172
- £9,172 x 10% = £917

Mae'r Parchedig Anne yn rhoi £917 ym mlwch 32.

**Blwch 33  Y swm a dalwyd gennych tuag at y buddiant a gawsoch am wasanaethau**

Rhowch y cyfanswm a daloch tuag at y biliau a chynnal a chadw'r ficerdy ym mlwch 33. Er enghraifft, os taw cyfanswm costau'r ficerdy oedd £600, a talodd yr eglwys £500, rhowch y £100 a daloch ym mlwch 33.

Nid yw'r blwch hwn fel arfer yn berthnasol i glerigwyr yr Eglwys yn Lloegr sy'n cael eu talu gan Gomisiynwyr yr Eglwys, gan fod costau'r ficerdy yn cael eu talu gan Gomisiynwyr yr Eglwys fel arfer.

## Incwm arall fel gweinidog yr efengyl

**Blychau 36 a 37**

Rhowch unrhyw incwm gweinidogol nad ydych wedi'i gynnwys ym mlwch 10, ym mlwch 36. Gall hyn gynnwys caplaniaethau sydd ar wahân i'ch prif benodiad. Rhowch y dreth a daloch ar yr incwm hwn ym mlwch 37.

## Incwm trethadwy ac ati

**Blwch 39  Cyfanswm y dreth a ddidynnwyd**

Os yw blwch 3 plws blwch 9 plws blwch 11 plws blwch 37 yn negyddol, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.